



ENTRE**COMPEDU**

Modiwl 2

Mynd yn Ddyfnach 2.3

**Gwneud y gorau o fannau dysgu
ac adnoddau eraill**



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Mynd yn Ddyfnach 2.3

Gwneud y gorau o fannau dysgu ac adnoddau eraill.....	3
Trefniadau eistedd	4



Gwneud y gorau o fannau dysgu ac adnoddau eraill

Mae mannau dysgu o bob math i'w cael. Maent yn amrywio o amgylchedd hyblyg, cynllun agored i ystafelloedd petryal wedi'u hadeiladu ar gyfer 30 o fyfyrwyr, a mannau rhithwir. Mae defnyddio stiwdios rhithwir, er enghraifft, yn cynnig cyfle i ddatblygu creadigrwydd myfyrwyr ar raddfa fawr iawn. Yma mae'r myfyrwyr yn trafod syniadau sydd wedi eu ffurfio'n rhannol ar-lein trwy rannu brasluniau, modelau ac arteffactau digidol. Mae ffyrdd llinol o feddwl yn cael eu herio wrth i'r myfyrwyr groesawu ansicrwydd. Mae tiwtoriaid yn darparu adborth cyflym ac mae syniadau'n cael eu cipio, eu pwysu a'u mesur a'u harchifo. Gall cymunedau rhithwir gynnwys miloedd o fyfyrwyr, y byddai'n amhosibl iddynt gyfarfod wyneb yn wyneb fel arall. Mae'r Brifysgol Agored yn rhedeg OpenDesignStudio, sy'n caniatáu cymhariaeth gymdeithasol â channoedd o fyfyrwyr eraill. Mewn un gweithgaredd, gofynnir i'r myfyrwyr gynllunio crys T, a chânt eu harwain trwy weld gwaith eu cyfoedion.

Mae llawer o ysgolion yn defnyddio tir yr ysgol fel mannau dysgu integrol. Wrth gerdded o amgylch tir yr ysgol, gall cwestiwn syml fel 'Tybed sut y mae hyn yn gweithio?' ysgogi creadigrwydd, chwilfrydedd ac ymchwiliad. Mae arsylwadau syml ym myd natur wedi ysbrydoli pob math o ddyfeisiau – o'r mwydyn neu'r pryf genwair sy'n turio trwy'r ddaear (dril mwyngloddio) i'r wylan (a oedd yn ysbrydoliaeth ar gyfer awyrennau Spitfire yr Ail Ryfel Byd).

Mae cyntedd yr ysgol yn fan delfrydol i ddangos i'r ymwelwyr sut y mae'r myfyrwyr wedi meddwl am syniadau, a gellir neilltuo wal y gall rhieni a'r gymuned ehangach gyfrannu ati. Mae un athrawes feithrin yn Japan yn gofyn i'w phlant ifanc greu eu 'fframiau' eu hunain er mwyn cofnodi eu siwrnai ddysgu.¹ Ac wrth gwrs, mae'r gymuned leol yn cynnig llawer o fannau posibl i fyfyrwyr gynhyrchu syniadau – boed hynny mewn amgueddfeydd, orielau, parciau, coetiroedd (e.e. 'ysgolion coedwig'), canolfannau manwerthu neu ffatrioedd. Yn fyr, mae angen i ddysgu entrepreneuriaid fynd â'r myfyrwyr y tu hwnt i gatiâu'r ysgol.

¹ Dyfynnwyd gan McIntosh, E. (2015) *How to come up with great ideas and actually make them happen*, NoTosh Publishing, t.75.



Trefniadau eistedd

Mae dadlau wedi bod ers blynyddoedd ynglŷn â beth yw'r trefniadau eistedd gorau er mwyn hwyluso dysgu. O wybod bod cydweithredu yn rhan ganolog o ddysgu entrepreneuriaidd, mae'n dilyn y dylid neilltuo man ar gyfer gwaith grŵp rheolaidd. Mae ymchwil i drefniadau eistedd mewn ystafelloedd ar gyfer plant dosbarth pedwar yn yr Almaen yn dangos bod hanner cylch yn hwyluso gofyn cwestiynau yn well na rhesi a cholofnau traddodiadol. Ond hyd yn oed yn yr olaf, roedd y myfyrwyr yn gofyn mwy o gwestiynau pan oedd y seddi wedi'u gosod ar ffurf 'T' ac mewn siâp triongl.² Canfu astudiaeth o drefniadau dosbarth cynradd yn yr Iseldiroedd fod athrawon yn dweud eu bod yn dechrau'r flwyddyn â rhesi er mwyn cael y myfyrwyr i ganolbwyntio, ac yn ceisio gweithio gyda grwpiau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.³

Dylid defnyddio trefniadau eistedd sy'n cefnogi natur y dysgu a'r math o ymddygiad. Er enghraifft, os yw addysgwyr am i fyfyrwyr weithio'n annibynnol a chanolbwyntio ar dasg benodol, mae'n gwneud synnwyr iddynt ddefnyddio rhesi. Ar y llaw arall, os yw rhyngweithio'n bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant prosiect, dylid aildrefnu'r desgiau yn glystyrau neu'n hanner cylch. Mae'n amlwg bod hyblygrwydd yn allweddol. Dywedwyd y dylid trawsnewid yr ystafell ddosbarth draddodiadol yn ystafell wrthdaro ar gyfer gweithgareddau entrepreneuriaidd ymarferol (gan chwarae â'r geiriau Saesneg '*clash room*' a '*class room*'). Gan fod sgiliau cymdeithasol, trafodaeth a rhyngweithio yn bwysig ar gyfer dysgu entrepreneuriaidd, dylai addysgwyr ystyried trefniadau eistedd yn ofalus.

² Marx, A., Fuhrer, U., a Hartig, T. (1999). 'Effects of classroom seating arrangements on children's question-asking'. *Learning Environments Research*, 2(3), 249-263.

³ Gremmen, M. C., van den Berg, Y. H., Segers, E., a Cillessen, A. H. (2016). 'Considerations for classroom seating arrangements and the role of teacher characteristics and beliefs'. *Social Psychology of Education*, 19(4), 749-774.



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.3.1: Trefniadau eistedd

Cliciwch yma i lawrlwytho templedi trefniadau eistedd neu edrychwch ar y diagram isod. Trafodwch y rhain â'ch myfyrwyr – pa rai sydd orau ganddynt a pham?




Fig 2.3.1 Seating templates Source: <https://teachertrackertool.weebly.com/classroom-layouts.html>

Ffigur 2.3.1 Templedi trefniadau eistedd

Ffynhonnell: <https://teachertrackertool.weebly.com/classroom-layouts.html>

